# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2299 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 22/07/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4802 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4803 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Rowson a G.A. Davies.<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4804 |
| Item Title | Datganiadau Buddiannau a Goddefebau |
| Summary | Datganodd y Cynghorydd Wayne Hodgins ddiddordeb yn y cyfarfod gan y gall rhai o'i gleientiaid hefyd fod yn ddefnyddwyr gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4807 |
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y dylid cynnal cyfarfodydd y dyfodol am 10.00 a.m. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4805 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5150 |
| Item Title | Blaenraglen Gwaith Arfaethedig 2021-22 y Pwyllgor Craffu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynodd y Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021-22 (Atodiad 1) a cheisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor.<br><br>Nodwyd y dylai'r dyddiadau y cyfeirir atynt ar dudalennau 20 a 21 yn y golofn ddiwethaf o'r Flaenraglen Gwaith i gyd ddarllen 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cytuno ar Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22.<br><br>**ADSS CYMRU – TEYRNGED I BOB GWEITHIWR GOFAL** |

| | |
|---|---|
| | Fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ffilm fer a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn teyrnged i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sydd ar gost fawr i'w hunain wedi cyflwyno gofal a chymorth i bobl fregus drwy gydol y pandemig.<br><br>Byddid yn rhoi dolen i Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol i Aelodau weld y fideo ar-lein. |

| Item ID | 5151 |
|---|---|
| Item Title | Gwiriad Sicrwydd 2021 Arolygiaeth Gofal Cymru: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn cyflwyno crynodeb gwirio sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru fel y'i dynodir yn y llythyr dyddiedig 11 Mehefin 2021 (Atodiad 1). Diben y gwiriad sicrwydd oedd adolygu pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gyda ffocws ar ddiogelwch a llesiant. Mae'r llythyr yn crynhoi canfyddiadau gwiriad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru ar 17 Mai i 21 Mai 2021.<br><br>Rhoddodd yr Arolygydd Arweiniol (Arolygiaeth Gofal Cymru) drosolwg o wiriad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu llythyr dyddiedig 11 Mehefin 2021, sy'n crynhoi pa mor dda mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod yn parhau i gefnogi oedolion a phlant bregus drwy gydol y pandemig.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn adroddiad gwych yn dangos pa mor dda yr oedd Blaenau Gwent wedi perfformio yn ystod y pandemig. Dywedodd Aelod eraill fod hynny'n gryn glod gan y gallai Awdurdodau eraill edrych i Flaenau Gwent i weld pa mor dda yr oeddent wedi perfformio a gobeithiai y byddai'r wasg yn rhoi adroddiad ar y neges gadarnhaol.<br><br>Yng nghyswllt paragraff 6.6 yr adroddiad – 'roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr a rheolwyr ac yn ystyried bod eu llwyth gwaith yn hylaw', gofynnodd Aelod am y geiriau 'rhan fwyaf'. Esboniodd yr Arolygydd Arweiniol ei bod fel arfer yn wir y gallai rhai materion godi yng nghyswllt newid gan nad oedd pob ymarferydd yn hapus i groesawu newid. Roedd yr Arolygydd wedi siarad gyda'r rheolwyr am y mater a theimlai nad oedd o bwys mawr.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am broblemau gyda System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), dywedodd yr Arolygydd fod problemau mawr gyda'r system. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol mai WCCIS oedd y system gyfrifiadurol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Lleol a 7 Bwrdd Iechyd i gofrestru a gweithredu. Roedd rhai Awdurdodau a Byrddau Iechyd wedi gweithredu'r system ond |

roedd problemau mawr am ddibynadwyedd a gweithrediad y system. Mae'r Cyfarwyddwr yn gwybod am gynlluniau i uwchraddio a gwneud gwelliannau i'r system a gobeithiai y byddid yn symud ymlaen â hyn yn yr ychydig fisoedd nesaf.

Soniodd Aelod am yr adroddiad ardderchog a chanmolodd staff ar sut yr oeddent wedi delio gyda chyfnod anodd y pandemig a'r mesurau a roddodd yr Awdurdod ar waith i alluogi lleoliadau i aros gyda'i gilydd ac i alluogi plant i weld eu teuluoedd a'u brodyr a'u chwiorydd ar gyfnod mor anodd a hefyd y gefnogaeth oedd ar gael i weithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a phawb arall oedd yn gysylltiedig. Teimlai fod hyn yn newyddion rhagorol i'r Awdurdod.

Dywedodd Aelod ei fod yn adroddiad rhagorol gan asiantaeth allanol a theimlai ei fod yn dangos fod staff mewn cysylltiad gyda'r cleientiaid a gefnogant ac yn dangos fod yr holl Gyngor yn cymryd eu rôl Rhiant Corfforaethol o ddifrif.

Adleisiodd Aelodau eraill sylwadau eu cydweithwyr ar yr adroddiad ardderchog a theimlent fod gweithdrefnau diogelu Blaenau Gwent yn ardderchog ac y dylai staff a swyddogion fod yn falch iawn o'u perfformiad yn ystod y pandemig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am sut y cafodd y 25 ffeil a gafodd eu hadolygu eu dewis, esboniodd yr Arolygydd y cafodd y ffeiliau eu dewis ar hap o bedwar categori a nodwyd yn y canllawiau a anfonwyd at awdurdodau lleol. Roedd y 25 ffeil a adolygwyd yn cynnwys 5 ffeil gan Gwasanaethau Plant a 5 gan Gwasanaethau Oedolion. Dim ond ychydig ddyddiau o rybudd a gafodd yr awdurdod lleol pa ffeiliau fyddai'n cael eu hadolygu er mwyn trefnu cyfweliadau gyda gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm a, lle'n briodol, y person oedd piau'r ffeil.

Ar wahoddiad y Cadeirydd dywedodd Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn newyddion rhagorol i'r Awdurdod ac yn arbennig y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Mynegodd werthfawrogiad am gymhlethdod gwaith y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi oedolion a phlant bregus ac roedd eu hymroddiad a'u hymrwymiad i'w gwaith yn rhagorol, yn arbennig drwy gydol y pandemig gan eu bod wedi wynebu llawer o heriau gyda gwahanol ffyrdd o weithio ac roedd yn falch o'r swyddogion a'r staff yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent. Mynegodd ddiolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pennaeth Gwasanaethau Plant, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r holl staff a'u dyfalbarhad yn ystod y cyfnod heriol hwn. Diolchodd hefyd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol am y gefnogaeth a gafodd ganddynt fel eu Haelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Gweithredol am ei sylwadau twymgalon ac i'r Arolygiaeth Gofal a'r Arolygydd Arweiniol am ei sylwadau ac am gyflwyno'r adroddiad.

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad a'r llythyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru fel y cawsant eu cyflwyno. |

| Item ID | 5152 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2019/2020 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Atodiad 1).<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ym mharagraff 6.4 Gwasanaethau Oedolion. Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal sylw at y prif bwyntiau ym mharagraff 6.3 Gwasanaethau Plant.<br><br>Yng nghyswllt atgyfeiriadau, holodd Aelod os oedd gweithiwr cymdeithasol hefyd yn mynd gyda'r heddlu pan oeddent yn ymweld â theulu ac os oedd swyddog heddlu penodol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Plant yn Derbyn Gofal ei fod yn dibynnu ar natur yr atgyfeiriad, os oes pryderon am amddiffyn plant ac os oes elfen ymchwiliad troseddol yn gysylltiedig â'r pryderon hynny, yna byddai swyddog heddlu yn mynychu'r atgyfeiriad. Mae tîm penodol o swyddogion heddlu drwy uned diogelu'r cyhoedd a gellid cynnal ymchwiliadau ar y cyd dan Adran 47 o'r Ddeddf Plant lle gallai Gwasanaethau Cymdeithasol wneud ymchwiliadau yng nghyswllt lles y plant a gallai'r heddlu ymchwilio unrhyw elfen droseddol i'r pryderon.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef derbyn yr adroddiad fel y cafodd ei ddarparu. |

| Item ID | 5153 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad ar Strategaeth i Ostwng yn Ddiogel y Nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a gyflwynwyd i ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cynnydd a wnaed yng nghyswllt gweithredu Strategaeth i Ostwng yn Ddiogel y Nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal 2020-2025.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod na fu unrhyw gynnydd yn nifer y plant sy'n dod i ofal a holodd os oedd hynny oherwydd y cyfnod clo. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oedd effaith hirdymor y pandemig i'w weld eto, mae'r Tîm |

Cefnogi Newid wedi parhau i ymweld â phlant y bernid eu bod mewn risg. Roedd staff wedi gweithio'n galed i atal plant rhag dod i ofal a hefyd wedi llwyddo i helpu plant i adael gofal drwy orchmynion rhyddhau gofal.

Cyfeiriodd Aelod at y nifer o ofalwyr maeth ym Mlaenau Gwent a holodd am gynnydd wrth recriwtio gofalwyr maeth. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y rhan o'r asesiadau a gynhelir ar hyn o bryd yn ofal gan berthynas. Yng nghyswllt recriwtio, cafodd brand Maethu Cymru ei lansio'n swyddogol ac maent yn edrych sut i gydweithio a chydweithredu i gryfhau safle Blaenau Gwent yn y farchnad ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth  i'w wneud yn fwy o ddull Cymru-gyfan yn hytrach nag awdurdodau lleol yn gweithio ar ben eu hunain yn erbyn y darparwyr annibynnol.

Yng nghyswllt recriwtio gofalwyr maeth o ddarparwyr annibynnol, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth yn nhermau gwahaniaeth gwariant, pan gynhwyswyd gorbenion mai ychydig o arbedion fyddai a theimlai y byddai gwell rheolaeth a chefnogaeth i ofalwyr maeth yr Awdurdod ei hun.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am nifer y plant presennol a phlant newydd sy'n dod i ofal yn Ffigurau 2, 3, 4 a 5, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'r cyfanswm poblogaeth yn cynnwys plant a fu mewn gofal ers peth amser ac y byddai'n ffigur treigl, plant yn dod i mewn i ofal ac yn gadael ofal yn unigryw ar gyfer y mis hwnnw.

Yng nghyswllt oedran y plant sy'n dod i ofal, byddai'r Tîm yn mynd ati i asesu'r holl opsiynau posibl ar gyfer y plentyn dan sylw a allai gynnwys adsefydlu ar gyfer rhieni os gallai'r rhieni wneud newidiadau, neu gellid ystyried lleoliad gyda theulu estynedig neu fabwysiadu. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod dulliau yn eu lle i sicrhau nad yw cynlluniau a roddwyd ar waith i gefnogi'r plant yn crwydro a bod plant yn symud allan o'r system mor ddiogel ac mor gyflym ag sydd modd faint bynnag eu hoed.

Gofynnodd Aelod beth oedd sefyllfa Blaenau Gwent yng nghyswllt swyddi gwag o fewn y gwasanaeth o gymharu gydag Awdurdodau eraill. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y sefyllfa gyda swyddi gwag yn debyg i awdurdodau eraill yng Ngwent, yn neilltuol ar gyfer Gwasanaethau Plant a theimlai ei bod yn broblem genedlaethol a bod angen i gynnig Blaenau Gwent i weithwyr cymdeithasol fod yn debyg i gynnig Awdurdodau eraill a dangos yr hyn mae Blaenau Gwent yn dda amdano. Teimlai fod llythyr gwirio sicrwydd Arolygiaeth Gofal Plant yn dangos perfformiad da staff Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent. Yng nghyswllt hysbysebu a denu pobl i'r sector Gofal Cymdeithasol, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod yn edrych ar yr hyn y gellid ei wneud gyda phrifysgolion a chyrff eraill i wneud gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yn gynnig mwy deniadol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn broblem genedlaethol a bod Blaenau Gwent wedi dilyn ymagwedd 'tyfu eich rhai eich hun' dros y 4/5 mlynedd ddiwethaf sydd wedi helpu gweithwyr cymorth i symud i gwrs gradd i gymhwyso. Roedd awdurdodau eraill yn dechrau cynyddu eu cyflogau a chynnig cymhellion, ac ni fedrai

| | |
|---|---|
| | Blaenau Gwent gystadlu â hynny. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso er mwyn cadw eu gwasanaeth ond fel awdurdod bach ni fedrem gynnig yr un cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa ag awdurdodau mwy. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth aelodau y gallai gyflwyno adroddiad yn nes ymlaen yn y flwyddyn yng nghyswllt y tâl a'r cymhellion mae awdurdodau eraill yn eu cynnig er mwyn i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried hynny.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y mater hwn yn risg hollbwysig i Blaenau Gwent ac ar draws Cymru. Bu trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r bwriad i godi'r mater gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Cymru, i edrych ar yr holl ffyrdd posibl i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth a/neu recriwtio i gynyddu'r cyfleoedd i bobl weithio yn y sector Gofal Cymdeithasol. Teimlai ei bod yn bwysig diogelu capasiti staff Gwasanaethau Cymdeithasol i fedru cyflawni cyfrifoldebau Blaenau Gwent mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Gofynnodd Aelod i lythyr gwerthfawrogiad gael ei anfon at bob aelod staff yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i fynegi gwerthfawrogiad Aelodau am y gwaith ac ymroddiad rhagorol a ddangosodd holl staff Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad. |